Diogelu Pobl yn Abertawe

Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe ar gyfer Plant ac Oedolion

Fersiwn 5.1
Diweddarwyd: Gorffennaf 2018

Fframwaith Polisi Diogelu Corfforaethol Abertawe

"Mae diogelu yn fater i bawb"

"Nid yw gwneud dim yn opsiwn - Sylwi, Hysbysu!"

Fersiwn: v5 1
Y Dyddiad pan ddaw'r Polisi Diwygiedig i Rym: Gorffennaf 2018
Dyddiad Adolygu: Erbyn diwedd Mawrth 2020
Perchennog y Polisi: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraethu: cymeradwywyd gan y grŵp Diogelu Corfforaethol ym mis Mai 2018 yn amodol ar y newidiadau a restrir isod
Newidiadau i v4 (ar gais y grŵp Diogelu Corfforaethol): - Tacluso'r rhagarweiniad, a chymryd y diffiniadau o bolisïau cenedlaethol - Cryfhau'r datganiadau polisi ar hawliau dynol, caethwasiaeth fodern - Defnyddio 'perchennog' grŵp gorchwyl er mwyn osgoi dryswch â'r 'arweinwyr' diogelu - Pennu enwau perchnogion/swyddogion cyfrifol y grwpiau gorchwyl (os oeddent ar gael) - Diweddaru'r camau gwella a'u rhoi mewn tabl yn Atodiad 2b - Ychwanegiadau i'r Rhestr Termau (Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod-FGM), a'i chysoni â'r canllawiau diweddaraf (gyda dolenni) - Dolenni i ganllawiau statudol diweddar, e.e. 'oedolyn sy'n wynebu risg', 'plant sy'n wynebu risg'. Addasu'r iaith yn y polisi i adlewyrchu'r termau a ddefnyddir yn y canllawiau statudol - Atodiadau 3a, 3b – diweddaru siartiau llif dyletswydd i hysbysu yn unol â'r canllawiau statudol diweddar - Newid y cyfeiriadau at y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

Rhagarweiniad

Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, ac addysgu'r bobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Croeso i bolisi diogelu corfforaethol Cyngor Abertawe, sy'n datgan y cyd-ddisgwyliadau corfforaethol, yn cofnodi ein hymrwymiad polisi ac yn darparu manylion am y trefniadau ar gyfer camau diogelu sydd i'w cymryd yn y dyfodol.

Mae egwyddor **"Mae Diogelu yn Fater i Bawb" ar waith yng Nghyngor Abertawe,** ac mae'n rhan allweddol o'r polisi hwn, sy'n cwmpasu'r bobl ganlynol, a fydd yn gorfod ei ddilyn:

- ein cyflogeion
- aelodau etholedig
- gwirfoddolwyr, a
- chontractwyr (er y gall amodau neu bolisïau penodol fod yn berthnasol i gontractau)

Ysgrifennir Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, felly mae'n hanfodol bwysig bod aelodau o'r cyhoedd a sefydliadau'n ymwybodol o sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at ddiogelu pobl yn Abertawe.

Mae gan bob plentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, beth bynnag yw eu hoed, eu hanabledd, eu rhyw, eu treftadaeth hiliol, eu cred grefyddol, eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth.

Mae diogelu pobl yn un o bum blaenoriaeth allweddol Cyngor Abertawe yn y Cynllun Corfforaethol Diwygiedig 2017-2022, ac fe'i disgrifir yn ein Datganiad Llesiant: Cynllun Corfforaethol Abertawe 2017-22

Amcan 1. Diogelu pobl rhag niwed - fel na fydd ein dinasyddion yn dioddef niwed na chamfanteisio arnynt.

Pam mae'r flaenoriaeth hon yn amcan llesiant:

¬ Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein dinasyddion yn byw heb ddioddef niwed na chamfanteisio arnynt.

¬ Mae angen bod diogelu pobl agored i niwed yn cael ei weld fel mater i bawb ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor, gan yr holl Aelodau etholedig a chan bawb sy'n gweithio ar ran y Cyngor.

¬ Rydym am i blant fod yn ddiogel rhag niwed ac aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cymorth mewn sefyllfa deuluol pan fydd hynny'n ddiogel iddynt.

¬ Rydym am fynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cefnogaeth lawn.

¬ Rydym am i bobl heneiddio'n dda a gallu byw mor annibynnol ac mor ddiogel â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd polisi diogelu corfforaethol y Cyngor hwn yn helpu i roi sylw i rai o'r heriau mwy hirdymor a ddisgrifiwyd yn fanwl yn amcan y datganiad llesiant, ac i gymhwyso'r pum dull o weithio sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r polisi hwn yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
a) Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthyglau 2,3,5 6 ac 8;
b) Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn; ac
c) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

O dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau dynol o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r codau ymarfer a'r canllawiau statudol ar gyfer diogelu yn Rhan 7 o'r Ddeddf, yn disgwyl bod nifer o hawliau penodol yn cael eu hamddiffyn a'u cadarnhau:
Erthygl 2. - yr hawl i fywyd a amddiffynnir;
Erthygl 3. - yr hawl i ryddid rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol;
Erthygl 5. - yr hawl i ryddid a diogelwch;
Erthygl 6. - yr hawl i wrandawiad teg;
Erthygl 8. - yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol, cartref a gohebiaeth

Gweler y Rhestr o'r Termau Allweddol a ddefnyddir ym maes Diogelu yn Atodiad 1

1. Llywodraethu Diogel

1a) Y cyd-destun Polisi:

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Abertawe i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n wynebu risg ac oedolion sy'n wynebu risg.

Nod y cyngor yw sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion neu ar eu rhan yn gwneud hynny yn gymwys, yn hyderus ac yn ddiogel, gan weithio'n unol â'r fframweithiau cyfreithiol a statudol a bennwyd yn y canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Plant 1989 a 2004
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Mae'r Polisi Diogelu Gweithredol diwygiedig hwn (fersiwn 5, Mehefin 2018) yn disgrifio sut y bydd Dinas a Sir Abertawe yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, fel y nodwyd mewn codau ymarfer a chanllawiau statudol. Y bwriad yw rhoi sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, cynghorwyr, cyflogeion a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor bod trefniadau clir ar waith i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion:

Codau ymarfer a chanllawiau statudol | Llywodraeth Cymru

Darperir set lawn o ddolenni i wybodaeth ddefnyddiol yn Atodiad 5.

1b) Dyletswyddau cyfreithiol Cyngor Abertawe:

- Mae dyletswydd newydd ar holl bartneriaid perthnasol awdurdod lleol i hysbysu am blentyn sy'n wynebu risg. *O dan* adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud ymholiadau (yn gysylltiedig ag adran 47 o'r Ddeddf Plant) os caiff ei hysbysu y gallai plentyn fod yn wynebu risg; ac i gymryd camau i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel. *O dan* adran 130 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae dyletswydd ar holl bartneriaid perthnasol awdurdod lleol i hysbysu am bryder ynghylch oedolyn sy'n wynebu risg, ac mae dyletswydd ar awdurdod i wneud ymholiadau os oes achos rhesymol i amau bod person yn ei ardal (boed hwnnw/honno'n preswylio yno fel arfer neu beidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg. *O dan adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

1c) Mae “diogelu” yn fater i bawb ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor.

Mae "diogelu" yn gysyniad llawer ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n cwmpasu hybu hawliau, cefnogi unigolion i fyw yn ddiogel a lleiafu risg, lle bo modd, ac amddiffyn hawliau dinasyddion yn y meysydd llesiant canlynol:

- Amddiffyn rhag niwed ac esgeuluso;
- Diogelwch
- Iechyd corfforol, llesiant emosiynol, a iechyd meddwl;
- Cynnal ac amddiffyn hawliau dynol unigolion
- Cyfrannu i gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd.

1d) Blaenoriaeth Gorfforaethol Bwysicaf Abertawe:

Diogelu pobl rhag niwed - fel na fydd ein dinasyddion yn dioddef niwed na chamfanteisio arnynt.

I gefnogi Diogelu fel y flaenoriaeth gorfforaethol a'r amcan llesiant pwysicaf, mae'r canlynol **yn allweddol**:

- Bod gan bob plentyn ac oedolyn (beth bynnag yw eu cefndir, eu diwylliant, eu hoed, eu hanabledd, eu rhyw, eu hethnigrwydd, eu cred grefyddol) hawl i gyfranogi mewn cymdeithas ddiogel heb wynebu unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, bwlio na chamwahaniaethu;
- Bod gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth a chamfanteisio arnynt;
- Bydd llesiant plant ac oedolion wrth wraidd ein holl bolisïau a’n gweithdrefnau;
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda phlant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hybu llesiant plant ac oedolion;
- Byddwn yn ymdrechu i barchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion trwy wrando arnynt a lleiafu unrhyw risgiau a allai effeithio arnynt;
- Byddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar ac yn gwneud pob ymdrech i leiafu’r sefyllfaoedd lle gall cam-drin neu honiadau o gam-drin, esgeuluso neu niwed ddigwydd.

1e) Ymagwedd Gynaliadwy at Ddiogelu

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n dweud wrth sefydliadau sut y dylent fynd ati i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae pum dull o weithio a ddylai fod yn sail i bob polisi ac ymarfer:

- **Hirdymor** - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â sicrhau bod anghenion tymor hir yn cael eu diwallu.
- **Ataliaeth** - Gall ymyrryd yn gynnar i leihau'r risg y bydd problemau'n digwydd neu'n gwaethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- **Integreiddio** - Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar amcanion corfforaethol eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- **Cydweithio** - Gallai gweithio ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff cyhoeddus ei hun) helpu'r corff cyhoeddus i gyflawni ei amcanion llesiant.
- **Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, amcanion llesiant y Cyngor a'u nodau llesiant eu

hunain, gan sicrhau hefyd fod y bobl sy'n cyfrannu ac yn cael cymorth yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

1f) Camau Gwella

I gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol hon, mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig hwn yn argymell bod nifer o gamau gwella (gweler Atodiad 2b) yn cael eu rhoi ar waith gan arweinwyr y grwpiau gorchwyl.

1g) Strwythurau Llywodraethu Diogel

Mae strwythur llywodraethu cadarn ar waith i sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol hyn yn cael eu cyflawni, a bod ymagwedd Abertawe at ddiogelu yn cael ei chyflawni. **Gweler atodiad 2 - Strwythur Llywodraethu**

Yn ogystal, mae Cyngor Abertawe wedi cyhoeddi dogfen ynghylch y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) - canllawiau i ymarferwyr, sydd hefyd yn disgrifio ein dull o ddarparu'r **Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir** i oedolion, plant, teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Cyflogaeth Ddiogel

Mae'r adran hon yn amlinellu'r trefniadau cyflogaeth ddiogel sydd ar waith i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Beth rydym ni'n ei wneud yn Abertawe ar hyn o bryd:

2a) Recriwtio a dethol - polisïau a gweithdrefnau i atal pobl anaddas, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, rhag gweithio neu wirfoddoli mewn rolau penodol, yn arbennig rolau sy'n ymwneud â phlant ac oedolion a allai wynebu risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Datgelu a Gwahardd sy'n cydymffurfio â chyfraith y Deyrnas Unedig ac sy'n gofyn bod asesiad risg yn cael ei lunio ar gyfer pob swydd neu rôl wirfoddol er mwyn penderfynu a oes angen gwiriad datgelu a gwahardd,
- Ni chaiff rheolwyr gymryd rhan yn y broses recriwtio a dethol oni bai eu bod wedi derbyn hyfforddiant penodol,
- Pan fydd rôl unigolyn yn gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhaid ailwirio bob tair blynedd,
- Sicrhau bod gwiriadau hunaniaeth a geirdaon unigolion yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gychwyn yn eu rôl,
- Glynu wrth Bolisi'r Awdurdod ynghylch Cyflogi Cyn-droseddwyr

2b) Ar ddechrau'r gyflogaeth: disgwylir i bob cyflogai, gwirfoddolwr a chontractwr ymrwymo i ddiogelu pan fyddant yn ymuno â'r Awdurdod neu'n gweithio ar ei ran

Enghreifftiau o'r trefniadau sydd ar waith:

- mae pob disgrifiad swydd yn cynnwys datganiad ynghylch yr ymrwymiad i ddiogelu,
- caiff gofynion a chyfrifoldebau penodol ynghylch diogelu, os oes rhai, eu cynnwys yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a'u hystyried fel rhan o'r broses ddiogelu.

2c) Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl ddiogelu: Mae'r holl gyflogeion, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu ac yn ymwybodol bod y rhain yn cynnwys cofnodi consyrn neu bryder ynghylch y plant a'r oedolion y byddant yn dod i gysylltiad â nhw

Enghreifftiau o'r trefniadau sydd ar waith:

- mae diogelu wedi'i gynnwys fel rhan o broses sefydlu'r Awdurdod,
- mae gofyn bod pob cyflogai'n derbyn hyfforddiant gorfodol ynghylch diogelu plant ac oedolion (i gael rhagor o wybodaeth ewch i'r tudalennau hyfforddi a datblygu staff http://www.swansea.gov.uk/staffnet/training)
- mae adnoddau a gwybodaeth am Ddiogelu ar gael i gyflogeion trwy StaffNet: http://www.swansea.gov.uk/staffnet/safeguarding

2d) Nodi a chodi pryderon – mae'r holl staff yn ymwybodol bod angen hysbysu am bryderon ynghylch unrhyw ymddygiad gan gyflogai arall, gwirfoddolwr,

contractwr neu ddinesydd, tuag at blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg, mewn modd sensitif ac effeithiol, yn unol â'r polisi hwn.

I gefnogi'r uchod, mae gan y Cyngor y canlynol:

- Rhaglen hyfforddi orfodol ar gyfer yr holl staff
- Llawlyfr cyflogeion - mae gan yr holl staff fynediad at weithdrefnau a chanllawiau allweddol
- Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth arbenigol ar gael trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Corfforaethol, Adnoddau Dynol a Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin.
- Mae Polisi Datgelu Camarfer ar waith gan y Cyngor: http://www.swansea.gov.uk/staffnet/article/30838/HR---Whistleblowing-policy
- Polisi Cam-drin Domestig: http://www.swansea.gov.uk/staffnet/domesticabusepolicy

Mae **Adran 4** o'r Polisi Diogelu hwn yn disgrifio'r prosesau ar gyfer hysbysu am honiadau a phryderon.
Gweler hefyd y siartiau llif hysbysu (**Atodiad 3a a 3b)**

3. Gweithlu Diogel

Mae'r adran hon yn nodi'r hyn a ddisgwylir gan holl staff a phartneriaid y Cyngor

3a) **Mae Diogelu'n Gyfrifoldeb i Bawb.**
Mae Cyngor Abertawe'n disgwyl i bob cyflogai gymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch unrhyw blentyn neu oedolyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau neu ryngweithio y mae'r cyflogai'n gyfrifol amdanynt.

Mae gweithlu diogel y Cyngor yn cwmpasu'r rolau canlynol:

- Cyflogeion
- Rheolwyr
- Contractwyr
- Arweinwyr Diogelu Dynodedig
- Rheolwyr Diogelu Strategol
- Swyddog Arweiniol y Gwasanaethau Cymdeithasol: Diogelu Plant
- Swyddog Arweiniol y Gwasanaethau Cymdeithasol: Diogelu Oedolion
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Prif Weithredwr
- Aelodau Etholedig
- Yr Aelod Cabinet ar gyfer Diogelu

Dylai gweithlu diogel yng Nghyngor Abertawe wneud y canlynol:

- bod yn effro bob amser i achosion posibl o gam-drin ac esgeuluso;
- cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu perthnasol a gwaith partneriaeth amlasiantaeth i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg;
- bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau a'r protocolau lleol ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed a dilyn côd ymddygiad y cyflogwr ac unrhyw godau ymddygiad proffesiynol perthnasol: http://www.swansea.gov.uk/staffnet/codeofconductpolicy
- hysbysu am unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu les plentyn neu oedolyn.

3b) Hyfforddi'r gweithlu
Mae'r staff a'r cynghorwyr yn derbyn hyfforddiant Diogelu perthnasol sy'n briodol i'w rôl ac maen nhw'n ymwybodol o'r polisi hwn. Rhaid i'r hyfforddiant hwn fod yn drefniant parhaus a pharhaol yn y Cyngor. Dylid cwblhau'r hyfforddiant hwn bob tair blynedd. Dylid parhau i adolygu'r polisi hwn i gyd-fynd â newidiadau perthnasol i bolisïau a deddfwriaeth.

Bydd y trefniant hwn yn cynnwys:

- Bod rolau diogelu arweiniol ym mhob adran yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan fod strwythurau timau/swyddi/personél yn gallu newid
- Bod yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig yn derbyn hyfforddiant diogelu sy'n ymwneud yn benodol â'u rôl
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu ar gyfer gwirfoddolwyr/staff achlysurol
- Defnyddio'r system gorfforaethol gwybodaeth am y gweithlu yn unig gofnod o'r hyfforddiant diogelu a gyflawnwyd gan y staff

- Cynhelir dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddi er mwyn archwilio cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol ym mhob maes gwasanaeth, a nodi bylchau.

3c) Rolau Allweddol y Cyngor o ran Diogelu Corfforaethol (gweler Atodiad 4):

Y Rôl yn y Cyngor	Prif Gyfrifoldebau
Arweinwyr Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol	Rôl allweddol fel dolen gyswllt i gyflogeion a gwirfoddolwyr yn eu maes gwasanaeth/cyfarwyddiaeth sydd â phryderon neu gonsyrn neu os bydd honiad yn cael ei wneud.
Rheolwr Diogelu Strategol	• Bod yn arweinwyr strategol ym maes diogelu yn eu cyfarwyddiaeth a hyrwyddo diogelu • Cynrychioli eu cyfarwyddiaeth yn y Grŵp Diogelu Gweithredol Corfforaethol • Cyflawni unrhyw hyfforddiant a nodwyd yn benodol ar gyfer y rôl hon • Cyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol a dogfennau neu adnoddau eraill • Cyflawni hyfforddiant a datblygu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r rôl hon, gan gynnwys mynd i gynadleddau, gwneud gwaith ymchwil a darllen (lle bo hynny'n rhesymol ymarferol)
Swyddog Arweiniol y Gwasanaethau Cymdeithasol: Diogelu Plant	• Paratoi adroddiadau ar gyfraniad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i waith diogelu a'u cyflwyno i Fwrdd Diogelu Plant Abertawe, ei is-grwpiau a chynulleidfaoedd eraill ar gais Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; • Arwain ar ddatblygu ac adolygu cylch gorchwyl, diffiniadau, protocolau, polisïau a gweithdrefnau diogelu plant yn fewnol ac ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant Abertawe, yn ôl y gofyn. • Arwain o ran datblygu, gweithredu ac adolygu rhaglen waith y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn perthynas â diogelu yng nghyd-destun y cynllun Plant a Phobl Ifanc trosfwaol. • Helpu i ddatblygu rhaglenni hyfforddi amlasiantaeth a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau gweithgareddau diogelu. • Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu system sicrhau ansawdd a fydd yn galluogi Bwrdd Diogelu Plant Abertawe i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei bartneriaid o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol i ddiogelu plant. • Datblygu strategaeth ymgynghori/gyfranogi ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, er mwyn sicrhau bod eu barn yn cyfrannu at wella'r gwasanaethau diogelu. • Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol a ddylai

	gael gwybod am bob achos lle honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlant: a) wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn b) neu wedi niweidio plentyn o bosibl c) neu o bosibl wedi cyflawni tramgwyedd droseddol yn erbyn plentyn/plant
Swyddog Arweiniol y Gwasanaethau Cymdeithasol: Diogelu Oedolion	Speak to Ffion
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol/ Uwch Swyddogion	Swyddog cyfrifol y Cyngor o ran darparu trefniadau diogelu corfforaethol effeithiol. Mae holl Gyfarwyddwyr, Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth y Cyngor - trwy eu Timau Rheoli - yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau y rhoddir sylw dyledus i'r holl ofynion statudol o ran diogelu a hybu lles plant ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir, a chadw cofnodion digonol ynghylch hyfforddiant staff.
Rheolwyr	Fel cyflogeion y Cyngor, mae rheolwyr yn gyfrifol hefyd am y canlynol: • Hyrwyddo Diogelu yn eu tîm a'u maes gwasanaeth • Monitro'r trefniadau o ran, er enghraifft, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Hyfforddiant • Creu amgylchedd yn eu tîm neu eu maes gwasanaeth sy'n hyrwyddo diogelu a'r polisi hwn. • Cynorthwyo staff i hysbysu am bryderon
Cyflogeion	Mae pawb a gyflogir gan Gyngor Abertawe neu sy'n gweithio iddo dan gontract neu fel gwirfoddolwr yn gyfrifol am y canlynol: • Deall a dilyn y Polisi hwn a'r Weithdrefn hon • Deall arwyddion camdriniaeth, esgeuluso neu fathau eraill o niwed • Hysbysu am unrhyw bryderon sydd ganddynt fod plentyn neu oedolyn yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu'n dioddef mathau eraill o niwed neu mewn perygl o'u dioddef. Mae hyn yn cynnwys pryderon am gydweithwyr neu bobl eraill sy'n gweithio i'r cyngor. • Hysbysu am unrhyw honiadau a wnaed gan blentyn neu oedolyn • Derbyn unrhyw hyfforddiant diogelu a nodwyd ar gyfer rôl eu swydd - i gael rhagor o wybodaeth ewch i'r adran hyfforddi • Ymddwyn mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn briodol i'w rôl a dilyn polisïau, gweithdrefnau a

	chanllawiau'r awdurdod lleol neu'r sefydliadau neu gyrff eraill sy'n berthnasol iddynt • Helpu i hyrwyddo diogelu yn eu tîm ac ymhlith y cyhoedd • Cyflawni unrhyw rolau a chyfrifoldebau o ran diogelu ac amddiffyn sy'n ymwneud yn benodol â'u swydd.
Y Gweithgor Diogelu Corfforaethol	Gweithgor Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe yw'r grŵp rheoli ac arwain sy'n goruchwylio gweithrediad y polisi Diogelu Corfforaethol. Mae'r grŵp yn darparu'r 'llywodraethu diogel' a ddisgrifir yn y polisi a'i nod, trwy raglen waith gytunedig, yw sicrhau bod holl feysydd gwasanaeth y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol o fewn cwmpas y polisi hwn a bod trefniadau diogelu cadarn ar waith.
Y Cabinet	Y Cynghorydd Mark Child, yr Aelod o'r Cabinet sydd â phortffolio iechyd a llesiant, yw aelod arweiniol y Cyngor ar ddiogelu.
Craffu	Bydd paneli perfformiad craffu yn parhau i fonitro gweithrediad Polisïau Diogelu Corfforaethol y Cyngor a gaiff eu hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r Cyngor fel sy'n briodol.
Aelodau Etholedig	Mae gan yr aelodau etholedig ddyletswydd i fod yn ymwybodol o gyfrifoldebau diogelu'r Cyngor a'u cefnogi, ac i graffu ar sut cyflawnir y cyfrifoldebau hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

4. Arfer Diogel

Mae arfer diogelu yn berson-ganolog ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae gan Abertawe ymgyrch Sylwi! Hysbysu!

Gweithio ar y cyd i nodi ac atal cam-drin ac esgeuluso, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl. Sicrhau bod pob asiantaeth, gwasanaeth ac unigolyn yn gallu ymateb yn brydlon ac yn gymesur pan sylwir ar achosion posibl o gam-drin neu esgeuluso plant ac oedolion.

Fel sefydliad, gall y Cyngor deimlo'n sicr bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith, a bod yr holl arfer diogelu yn y gweithlu ehangach (gan gynnwys partneriaid, darparwyr a gwirfoddolwyr) yn gwella'n barhaus ac yn gweithio i wella bywydau a llesiant dinasyddion Abertawe.

Mae'r adran hon yn disgrifio'r ymarfer a'r trefniadau ymarferol sydd ar waith i gyflawni'r fframwaith newydd hwn.

4a) Nodi arwyddion cam-drin posibl:

Fel y nodwyd, mae llawer math o gam-drin, ac mae llawer o arwyddion posibl o gam-drin na fyddant yn darparu tystiolaeth bendant ar eu pen eu hunain.

Dyma rai enghreifftiau posibl:

- Anaf heb esboniad / colli pwysau / cleisiau a thoriadau / bryntni
- Newidiadau ymddygiad sydyn neu heb esboniad
- Iselder / diffyg hunan-barch / gorbryder
- Diffyg hunanofal / dadhydriad / patrwm bwyta annormal
- Hunan-niweidio
- Ymddygiad obsesiynol
- Newidiadau mewn amgylchiadau ariannol - biliau heb eu talu neu dlodi sydyn
- Dirywiad mewn safonau byw, neu esgeuluso eiddo
- Gofalwr, gwarcheidwad neu fòs (yn achos masnachu pobl) gorfeirniadol neu ddi-barch a all fod yn rheoli, yn bwlio neu'n tanseilio
- Unigolyn wedi'i ynysu o'r rhwydwaith arferol o ffrindiau, teulu neu gymuned
- Dim mynediad at wasanaethau meddyg teulu, gwasanaethau lleol a dogfennau cyfreithiol, e.e. pasbort (yn achos masnachu pobl)

Gweler Atodiad Un: rhestr termau ac Atodiad 5: Gwybodaeth Ddefnyddiol

4b) Hysbysu am unrhyw bryderon posibl

Lle gwelir bod pryder posibl ynghylch diogelu, eich cyfrifoldeb chi, fel un o gyflogeion y Cyngor, fydd codi'r mater gyda'ch Rheolwr Llinell neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig. Weithiau, gall fod yn briodol neu'n angenrheidiol i chi gysylltu'n uniongyrchol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir isod.

Mae gofyn bod staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu perthnasol eu gwasanaeth unigol a'u cyfarwyddiaeth. Dylai fod gan wasanaethau eu gweithdrefnau diogelu eu hunain a fydd ar gael yn hwylus i staff yn ystod eu gwaith pob dydd.

Ar y cyd â'r arweinydd diogelu, gall staff benderfynu wedyn a ddylid cysylltu â'r arweinydd diogelu yn eu maes gwasanaeth, neu droi at gymorth arbenigol:

- Pwynt Mynediad Cyffredin y Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Plant a Theuluoedd

Os bydd gan Gynghorydd (neu unrhyw aelod o'r cyhoedd) bryderon ynghylch diogelwch oedolyn, dylid cysylltu â Phwynt Mynediad Cyffredin y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith:

Rhif ffôn: 01792 636854
E-bost: CAP@swansea.gov.uk neu adult.safeguarding@swansea.gov.uk
08.30am - 5pm ddydd Llun i ddydd Iau ac 08.30 - 4.30pm ddydd Gwener

Os bydd gan Gynghorydd (neu unrhyw aelod o'r cyhoedd) bryderon ynghylch diogelwch plentyn neu berson ifanc, dylid cysylltu â thîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith:

Rhif ffôn: 01792 635700
Neges destun (SMS): 07796275457
E-bost: access.information@swansea.gov.uk
08.30am - 5pm ddydd Llun i ddydd Iau ac 08.30 - 4.30pm ddydd Gwener

Dylid cysylltu â Thîm y Tu Allan i Oriau y Gwasanaethau Cymdeithasol os bydd problem yn codi ar ôl 5.00pm ddydd Llun i ddydd Iau ac ar ôl 4.30pm ddydd Gwener, ar y penwythnos neu ar Ŵyl Banc.
Rhif ffôn: 01792 775501

Rhaid cysylltu ar unwaith â'r gwasanaethau brys (yr Heddlu, y gwasanaethau Ambiwlans, Tân ac Achub) os bydd y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl enbyd.

Gweler Atodiadau 3a a 3b: siartiau llif diogelu corfforaethol ar gyfer hysbysu am bryderon ynghylch plant ac oedolion sy'n wynebu risg

5. Partneriaethau Diogel

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Cysylltiadau â threfniadau diogelu rhanbarthol

5a) Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin

Mae gan Fwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Bae'r Gorllewin bwerau i arwain a rhoi cyfarwyddyd i sefydliadau eraill o ran eu trefniadau diogelu a nodi'n glir ble mae angen gwella.
Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydlynu gwaith yr holl asiantaethau sydd â chynrychiolwyr ar y bwrdd er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant yn eu hardal,
- Cynnal gwiriadau trwy Adran 28 i asesu a yw partneriaid yn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol a ddisgrifiwyd yn y canllawiau statudol
- Sicrhau effeithiolrwydd y gwaith a gyflawnir gan y bobl neu'r cyrff hyn i'r dibenion hynny
- Datblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu a hyrwyddo dulliau gweithredu ataliol sy'n hybu lles plant yn eu hardal
- Cyfleu'r angen am ddiogelu a hybu lles plant
- Cyfrannu at y gwaith o gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant yn yr ardal, ac asesu effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir i blant a theuluoedd
- Cynnal adolygiadau ymarfer er mwyn dysgu

5b) Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin

Nod Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin yw cefnogi sefydliadau yn eu trefniadau i ddiogelu oedolion y mae angen cymorth a gofal wedi'i reoli arnyn nhw. Mae'n gwneud hynny trwy: gael sicrwydd bod trefniadau diogelu lleol ar waith, a gwirio bod y rheiny'n gweithio'n effeithiol.
Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Cyhoeddi cynllun busnes sy'n disgrifio sut byddant yn cyflawni eu hamcanion a sut bydd eu haelodau a'u hasiantaethau partner yn cyfrannu
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi pa mor effeithiol mae eu gwaith wedi bod
- Cyflawni rhaglen waith i wirio effeithiolrwydd y trefniadau presennol,
- Cynnal digwyddiadau i hyrwyddo arfer diogelu ac ataliol

Mae gan y bwrdd rhanbarthol hwn gyfrifoldebau statudol, a ddiffiniwyd mewn rheoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i arwain a chydlynu trefniadau diogelu oedolion ar draws ei ardal a goruchwylio a chydlynu effeithiolrwydd gwaith diogelu ei aelodau a'i asiantaethau partner.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch **Atodiad 5** - gwegysylltiadau â Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin.

6. Llais Diogel

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi llais cryfach i bobl a rheolaeth wirioneddol dros y cymorth mae arnynt ei angen i ddileu rhwystrau o ran eu llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynharach i atal anghenion rhag datblygu i sefyllfa gritigol, ac mae'n hyrwyddo buddsoddi adnoddau yn y tymor byr, gan ddatblygu dull gweithredu mwy cynaliadwy.

Rhaid gwneud i bob dinesydd deimlo eu bod yn bartneriaid cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol mewn trafodaethau ynghylch eu diogelwch a'u llesiant.

Eiriolaeth
Rhaid helpu unigolion i deimlo'n ddiogel, a theimlo eu bod yn bartneriaid cyfartal yn eu perthynas â gweithwyr proffesiynol. Mae croeso i unigolion wahodd rhywun o'u dewis i'w cefnogi i gyfrannu'n llawn a mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau. Gall ffrindiau, perthnasau neu rwydwaith cymorth ehangach yr unigolion ddarparu'r cymorth hwn.

O dan Ran 10 o'r Ddeddf sy'n delio ag Eiriolaeth, mae gofynion pellach i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â'r unigolyn i ffurfio barn ar sut gallai eiriolaeth gefnogi'r broses o bennu a gwireddu deilliannau personol yr unigolyn a darparu ar eu cyfer, gan gynnwys deilliannau diogelu; ynghyd ag amgylchiadau pryd bydd rhaid i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol.
•Côd Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)

Mae **Gwneud Diogelu'n Bersonol (Making Safeguarding Personal – MSP)** yn gynllun ledled y Deyrnas Unedig sydd â'r nod o ddatblygu gwaith diogelu sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, ac ystod o ymatebion i helpu pobl i wella neu ddatrys eu hamgylchiadau.

Mae datblygu Gwneud Diogelu'n Bersonol yn fwy na hoelio sylw ar arfer diogel personol yn y rheng flaen. Mae'n galw am ddefnyddio dull gweithredu system gyfan mewn sefydliadau a rhyngddynt i hyrwyddo llais a rheolaeth person-ganolog.

Byddai'r canlynol yn enghreifftiau o ymagwedd "Llais Diogel" at ddiogelu:

- trin pobl â 'phrofiadau bywyd' fel partneriaid cyfartal mewn perthnasoedd diogelu oedolion, a'u trin â pharch ac urddas
- sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymwneud â gweithgareddau diogelu yn cael eu gwerthfawrogi am eu profiad, eu cryfderau a'u gwybodaeth, a bod hynny'n cynnwys staff a gofalwyr
- sicrhau bod lleisiau teuluoedd, grwpiau a chymunedau i'w clywed mewn gweithgareddau diogelu, gan gynnwys grwpiau nad ydynt i'w clywed yn aml
- sicrhau bod prosesau diogelu a chynnwys defnyddwyr mor glir, mor syml ac mor hygyrch â phosibl, a bod gwybodaeth hawdd ei deall ar gael am yr hyn y mae pob gweithgaredd yn ei olygu
- gofyn i staff a dinasyddion roi eu barn ar eu profiad o brosesau diogelu.

Gellid datblygu fframwaith mesur deilliannau er mwyn helpu cyflogeion, rheolwyr, aelodau etholedig, timau a phartneriaid y Cyngor i wybod i ba raddau y maen nhw'n gwneud gwahaniaeth i ddiogelwch a llesiant 'pobl sy'n wynebu risg' yn eu hardal.

Beth mae'n rhaid i Gyngor Abertawe ei gyflawni?

7. Beth mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i sut bydd y Cyngor yn gwybod ei fod yn cyflawni'r fframwaith hwn.

I gefnogi Diogelu fel blaenoriaeth gorfforaethol ac amcan llesiant pwysicaf, mae angen i'r Cyngor gyflawni'r canlynol

¬ Parhau i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a sut mae nodi pryderon staff y Cyngor, yr aelodau etholedig, partneriaid, y cyhoedd a'r bobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor, a hysbysu amdanynt.

¬ Parhau i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith i amddiffyn pobl sy'n wynebu risg rhag niwed a chamfanteisio sylweddol.

¬ Parhau i gryfhau'r cydweithio a'r partneriaethau diogelu trwy Fwrdd Diogelu Oedolion a Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin.

¬ Parhau i gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'u hannog i leisio'u barn am y gwasanaethau a dderbyniant trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a defnyddio ymarfer ar sail cryfderau sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'u hasedau a'r hyn y gallan nhw a'u teuluoedd ei wneud i helpu.

Mesurau Perfformiad Allweddol

Bydd Cyngor Abertawe, trwy fwrdd y grŵp llywio diogelu corfforaethol, yn casglu, yn dadansoddi, yn monitro ac yn adolygu data sy'n gysylltiedig â'r amcanion diogelu sy'n deillio o'r camau gwella a restrwyd uchod, ac yn rhoi adroddiad ar ystod o fesurau perfformiad allweddol, bob chwarter a phob blwyddyn.

Yn ogystal, caiff y Cyngor archwiliad blynyddol annibynnol gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion, a gall fod yn destun arolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Gall y dangosyddion perfformiad allweddol gynnwys y canlynol:
 Gwell ymwybyddiaeth ymhlith y staff o'r polisi diogelu, a'r arweinwyr diogelu
 Bod gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu deall ar draws y sefydliad
 Nifer y pryderon a'r atgyfeiriadau a godwyd gan dimau anarbenigol yn y cyngor
 Diogelu i fod yn gyfrifoldeb allweddol yn nisgrifiadau swydd yr holl staff
 Y staff a'r aelodau etholedig wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol
 Hunanasesiadau / archwiliadau Adran 22 wedi'u cwblhau

Atodiad 1: Rhestr o'r termau allweddol a ddefnyddir ym maes Diogelu:

Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a dysgu'r bobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon, ac mae'r polisi hwn yn nodi'n glir bod dyletswydd i hysbysu: http://www.swansea.gov.uk/staffnet/safeguarding

Deddfwriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Côd Ymarfer / Canllawiau Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ailddiffinio plant ac oedolion 'sy'n wynebu risg':

Mae **Adran 130(4)** yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg' fel plentyn:

(a) sy'n dioddef cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed, neu sy'n wynebu risg o hynny; a
(b) sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny neu beidio).

Mae **Adran 126(1)** yn diffinio oedolyn sy'n wynebu risg.
Mae "oedolyn sy'n wynebu risg", at ddibenion y Rhan hon, yn oedolyn:

(a) sy'n dioddef cam-drin neu esgeuluso, neu sy'n wynebu risg o hynny;
(b) sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny neu beidio); ac
(c) sy'n methu amddiffyn ei hun, o ganlyniad i'r anghenion hynny, rhag dioddef cam-drin neu esgeuluso, neu risg hynny.

Mae'r diffiniad o "oedolyn sy'n wynebu risg" yn berthnasol yng nghyswllt y pwerau a'r dyletswyddau statudol sy'n cael eu cwmpasu yn Rhan 7 o'r Ddeddf ac, i'r dibenion hynny, mae'n disodli'r diffiniad o "oedolyn agored i niwed" a gynhwyswyd yn y ddogfen *Mewn Dwylo Diogel* (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000).

Mewn perthynas ag 'oedolion a phlant sy'n wynebu risg', mae **adran 197(1)** o'r Ddeddf yn darparu diffiniadau o "gam-drin" ac "esgeuluso":

Cam-drin - ystyr cam-drin yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai annedd breifat, sefydliad neu unrhyw fan arall).

Esgeuluso - ystyr "esgeuluso" o dan y Ddeddf yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn);

Categorïau Cam-drin ac Esgeuluso: Mae Côd Ymarfer/Canllawiau Rhan 7 (t8) yn darparu rhestr o enghreifftiau o bob un o'r categorïau cam-drin ac esgeuluso (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- **cam-drin corfforol** - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth ormodol, neu sancsiynau amhriodol;

- **cam-drin rhywiol** – treisio ac ymosod yn rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw/oedd yr oedolyn agored i niwed yn gallu cydsynio â hwy a/neu y cafodd ei roi dan bwysau i gydsynio â hwy;
- **cam-drin seicolegol** – bygythiadau niwed neu adael, rheolaeth gymhellol, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol (mae rheolaeth gymhellol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd sy'n ymosod, yn bygwth, yn bychanu, yn codi ofn, neu'n gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, i gosbi neu i ddychryn y dioddefwr);
- **esgeuluso** – methiant i gael gafael ar ofal meddygol neu wasanaethau, esgeulustod yn wyneb cymryd risgiau, methiant i roi meddyginiaeth a ragnodwyd, methiant i gynorthwyo gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, lloches, dillad; esgeuluso emosiynol.
- **cam-drin ariannol** yng nghyswllt pobl y gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth. Mae arwyddion posibl cam-drin ariannol yn cynnwys:
  - newid annisgwyl i ewyllys y person;
  - gwerthu neu drosglwyddo'r cartref yn sydyn;
  - trafodion anarferol mewn cyfrif banc;
  - cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn sydyn;
  - llofnod nad yw'n debyg i lofnod arferol y person;
  - amharodrwydd neu bryder y person wrth drafod ei faterion ariannol;
  - rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall;
  - diddordeb sydyn perthynas neu drydydd parti arall yn lles y person;
  - biliau sy'n parhau heb eu talu;
  - cwynion bod eiddo personol ar goll;
  - dirywiad mewn pryd a gwedd a all awgrymu bod deiet a gofynion personol yn cael eu hanwybyddu;
  - ynysu'r person yn fwriadol oddi wrth ffrindiau a pherthnasau gan roi rheolaeth lwyr dros eu penderfyniadau i berson arall.

TERMAU / DOLENNI ERAILL:

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Phobl Ifanc (CSE): pan gaiff plant a phobl ifanc eu cymell neu eu defnyddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Gall y ffurf ddifrifol hon o gam-drin rhywiol gynnwys rhyw yn gyfnewid am fath o daliad a all gynnwys: arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, llety, 'amddiffyniad', cyfeillgarwch, neu ymddygiad hoffus. Bwriad y troseddwyr, y gwelir tystiolaeth ohono yn y broses baratoi a ddefnyddiant trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn aml, yw manteisio ar fregusrwydd y plentyn neu'r person ifanc, sy'n methu â rhoi cydsyniad gwybodus. Mae eu gweithredoedd yn ymgais i wneud i ddioddefwyr deimlo'n ddi-rym, heb ddeall natur ymelwol y perthnasoedd, a'u hatal, drwy orfodaeth, rhag rhoi gwybod i neb am yr hyn sy'n digwydd iddynt. Swansea Staffnet - 7.8 Camfanteisio'n rhywiol

Cam-drin Domestig- unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, cymhellol neu fygythiol, trais neu gam-drin rhwng pobl 16 oed a throsodd sydd neu sydd wedi bod yn bartneriaid personol neu'n aelodau o'r un teulu, beth bynnag yw eu rhyw neu eu rhywioldeb. Gall hyn gwmpasu'r mathau canlynol o gam-drin, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny: cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol (Diffiniad Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig o Gam-drin

Domestig, 2013) Strategaeth Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Abertawe 2017- 22

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) – mae dyletswydd orfodol ar weithwyr proffesiynol i hysbysu am anffurfio organau cenhedlu benywod o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Cymru a Lloegr): Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – gwybodaeth weithdrefnol

Addaswyd gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, i gynnwys gorchmynion gwarchod Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGMPO**)** fel modd i amddiffyn dioddefwyr neu ddarpar ddioddefwyr rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod o dan gyfraith sifil y Deyrnas Unedig.

Troseddau Atgasedd – mae'r rhain yn dramgwyddau troseddol sy'n cael eu gweld gan y dioddefwr, neu gan unrhyw berson arall, fel rhai sydd wedi'u hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd gwirioneddol neu dybiedig y dioddefwr.

Hawliau Dynol - o dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi nifer o'r hawliau sy'n rhan o'r Confensiwn ar waith:
Erthygl 2 –yr hawl i fywyd a amddiffynnir;
Erthygl 3 – yr hawl i ryddid rhag triniaeth annynol neu ddiraddiol;
Erthygl 5 – yr hawl i ryddid a diogelwch;
Erthygl 6 – yr hawl i wrandawiad teg;
Erthygl 8 – yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol, cartref a gohebiaeth

Masnachu Pobl - caiff dioddefwyr eu gorfodi neu eu twyllo gan y sawl sy'n trefnu i'w symud. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng masnachu oedolion a masnachu plant, oherwydd pan fydd dioddefwr yn blentyn nid oes angen i orfodaeth na thwyll fod yn bresennol er mwyn ystyried bod y plentyn wedi cael ei fasnachu: Diogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu

Caethwasiaeth Fodern: recriwtio pobl trwy dwyll neu orfodaeth a'u symud i le newydd lle gellir camfanteisio arnynt: Llywodraeth Cymru | Atal Caethwasiaeth
Mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn gwneud darpariaethau o ran caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod neu lafur gorfodol a masnachu pobl, gan gynnwys darpariaeth i amddiffyn dioddefwyr. Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi ac yn egluro troseddau presennol caethwasiaeth a masnachu pobl ac ar yr un pryd yn cynyddu'r gosb fwyaf ar gyfer y troseddau hyn. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno mesurau i gefnogi ac amddiffyn dioddefwyr ac yn cyflwyno gofynion datgelu ar gyfer busnesau gyda'r nod o ddileu caethwasiaeth a masnachu pobl o gadwyni cyflenwi.

Dyletswydd PREVENT – mae dyletswydd ar y cyngor hefyd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi 'sylw dyledus i'r angen am atal pobl agored i niwed rhag cael eu tynnu i mewn i eithafiaeth a gweithredoedd terfysgol': Swansea Staffnet - strategaeth PREVENT

Diogelu Plant y mae eu Salwch wedi'i Ffugio neu ei Achosi Gan Eraill - Diogelu Plant y mae eu Salwch wedi'i Ffugio neu ei Achosi Gan Eraill (2008)- mae'r canllawiau atodol i'r canllaw hwn yn cyfeirio at 'ffugio neu achosi salwch mewn plentyn', o ganlyniad i ymddygiad rhiant neu ofalwr, lle bydd hynny'n effeithio ar ddiogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn.

ATODIAD 2a: Strwythur Llywodraethu


Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
Corff Gweithredol Amlasiantaeth
Bwrdd Gweithredol Diogelu'r Cyhoedd
(Cynrychiolwyr Amlasiantaeth Abertawe)
Y Tîm Rheoli Corfforaethol
Y Prif Weithredwr: Phil Roberts
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (Abertawe Mwy Diogel)
Y Grŵp Arwain
Penaethiaid Gwasanaeth
Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin
(Cynrychiolwyr amlasiantaeth Bae'r Gorllewin)
Grŵp Llywio Gweithredol Diogelu Corfforaethol
Cadeirydd: David Howes
Yr Aelod o'r Cabinet: Y Cyng Mark Child
Paneli Perfformiad Craffu
Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl
Rhaglen Waith
Cyflogaeth Ddiogel
Perchennog: Newydd
• Polisi recriwtio
• Gwiriadau CRB/DBS
• Disgrifiadau swydd
• Ymwybyddiaeth staff
• Contractwyr/ darparwyr
• Pryderon
Gweithlu Diogel
Perchennog: Newydd
• Sefydlu
• Dadansoddi Anghenion Hyfforddi
• Rhoi rhaglen Cyngor cyfan ar waith
• Rolau arweiniol
• Monitro a gwerthuso
Arfer Diogel
Perchennog: Damian Rees, GPaTh
• Ataliaeth
• Ymyrraeth gynnar
• Cysylltiadau â'r GCCh
• Sylwi, Hysbysu!
• Trefniadau ar draws y Cyngor cyfan
• Ymgyrchoedd
• Cyfathrebu
Partneriaethau Diogel
Perchennog: Kathryn/ Megan Stevens (Addysg)
• Cysylltiadau â'r Byrddau Rhanbarthol
• Cysylltiadau â'r TRhC
• Cysylltiadau â phartneriaethau strategol allweddol
• Cysylltiadau ag ysgolion
Llais Diogel
Perchennog: Ffion Larsen, Gwas. Oedolion
• Gwneud diogelu'n bersonol
• Eiriolaeth
• Gweithio gyda theuluoedd, gofalwyr a chymunedau
Perfformiad Diogelu
Perchennog: Simon Jones (Corfforaethol)
• Adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol
• Perchnogi'r Polisi
• Camau gwella
• Mesurau perfformiad
• Datblygu data
• Parodrwydd rheoleiddiol

Atodiad 2b. Camau Gwella (yn gysylltiedig ag adrannau'r polisi)

Grwpiau Gorchwyl	Camau Gwella (y bydd yr Arweinwyr yn pennu eu cwmpas ac yn cytuno arnynt)
1. Llywodraethu Diogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol: David Howes**	- Arwain a rhoi cyfarwyddiadau i'r Cyngor o ran sicrhau bod diogelu'n flaenoriaeth gorfforaethol, a gweithredu o fewn cwmpas y pum dull o weithio er mwyn cyfrannu at amcanion llesiant Abertawe - Ymgorffori'r polisi diogelu corfforaethol mewn arfer gwell ar draws y Cyngor cyfan - Cymeradwyo rhaglenni gwaith/camau gwella yn derfynol - Monitro'r gwelliannau perfformiad - Ymagwedd 'gwersi a ddysgwyd' tuag at ddigwyddiadau neu adroddiadau allweddol bwysig
2. Cyflogaeth Ddiogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol**: **I'w gyhoeddi**	- Diweddaru'r elfennau diogelu ym mholisi recriwtio a llawlyfr staff y Cyngor - Sicrhau y darperir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Pob Disgrifiad Swydd yn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau diogelu - Datblygu ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws contractwyr a darparwyr - Helpu staff i leisio pryderon, a thrwy'r polisi datgelu camarfer
3. Gweithlu Diogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol**: **I'w gyhoeddi**	- Rolau/swyddi arwain ar ddiogelu ym mhob gwasanaeth yn cael eu diweddaru - Rhoi rhaglen hyfforddi Cyngor cyfan ar waith, gyda deunyddiau wedi'u diweddaru - Darparu hyfforddiant i'r Swyddog Dynodedig Hysbysu am Ddiogelu - Cynyddu ymwybyddiaeth y staff trwy raglen sefydlu'r Cyngor - Dadansoddi'r anghenion hyfforddi yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod rheolwyr a chyflogeion pob maes gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant diogelu gorfodol - Holl aelodau etholedig y Cyngor yn derbyn hyfforddiant diogelu/e-ddysgu - Monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran hyfforddiant diogelu gorfodol
4. Arfer Diogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol: Damian Rees**	- Nodi camau i gefnogi atal ac ymyrraeth gynnar - Adolygu a monitro'r pryderon hysbysu, a sut bydd arweinwyr yn cysylltu â gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth statudol y Cyngor (gweler Atodiadau 3a a 3b). - Gwerthuso trefniadau ehangach y Cyngor - trwy edrych ar atgyfeiriadau, ymatebion a chanlyniadau. - Cefnogi ymgyrchoedd a negeseuon ar draws y Cyngor cyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelu
5. Partneriaethau Diogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol: Kathryn / Megan Stevens**	- Meithrin cysylltiadau, yn unol â'r strwythur llywodraethu diogelu corfforaethol, e.e. y Tîm Rheoli Corfforaethol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, Bwrdd Diogelu'r Cyhoedd, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol - Cysylltiadau ag ysgolion a chysylltiadau mewn ysgolion - Cynrychiolaeth ar Fyrddau Rhanbarthol ac mewn partneriaethau strategol - Rhoi adroddiadau ar ddatblygiadau neu ymgyrchoedd rhanbarthol

6. Llais Diogel **Swyddog(-ion) Cyfrifol: Ffion Larsen**	- Gwirio sut mae Cyngor Abertawe'n 'Gwneud diogelu'n bersonol' trwy gynnal archwiliadau neu ofyn barn y cyhoedd - Datblygu eiriolaeth a chymorth annibynnol i hyrwyddo hawliau dinasyddion - Gweithio mewn teuluoedd, cymunedau ac ysgolion i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelu
7. Perfformiad Diogelu **Swyddog(-ion) Cyfrifol: Simon Jones, Richard Rowlands**	- Adolygiad blynyddol o'r flaenoriaeth gorfforaethol - Perchnogi'r polisi/datblygu'r polisi/rheoli fersiynau - Camau gwella - gweithio gydag arweinwyr y grwpiau gorchwyl i bennu cwmpas y camau gweithredu y bydd gofyn eu cymryd - Nodi'r mesurau perfformiad allweddol a'r cylch darparu adroddiadau i'r grŵp Diogelu Corfforaethol mewn fframwaith perfformiad newydd - Cymorth i ddatblygu data ar gyfer adroddiadau a systemau monitro cynnydd - Parodrwydd rheoleiddiol, ar gyfer adolygiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau diogelu corfforaethol, yn y lle cyntaf

Atodiad 3b Diogelu Plant a Phobl Ifanc – Hysbysu

SYLWI, HYSBYSU!

Gall pryder ymwneud â phlentyn neu berson ifanc dan 18 mlwydd oed.
Mae dyletswydd statudol i roi gwybod am bryderon p'un a yw'r plentyn yn byw yn barhaol yn ardal Abertawe neu beidio.
Os credwch fod pryderon amddiffyn plant, dylech ofyn cyngor gan eich arweinydd diogelu neu'r gwasanaeth GCCh arbenigol.

Pan fydd gan un o gyflogeion, aelodau etholedig neu bartneriaid Cyngor Abertawe bryder am les neu ddiogelwch plentyn

Mae gan bob un o wasanaethau'r Cyngor Arweinydd Diogelu Dynodedig i helpu cyflogeion i ddelio gyda phryderon a materion diogelu plant.
Rhaid i'r staff ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu perthnasol ar gyfer eu gwasanaeth unigol a'u cyfarwyddiaeth hefyd

A. Ni chredir bod y plentyn mewn perygl enbyd ond mae pryder o hyd am ei ddiogelwch neu lesiant

Cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell a/neu'r Arweinydd Diogelu

Ceisiwch sicrhau bod eu rhifau gennych ar ffôn symudol y gwaith. Os na fydd eu rhif ffôn gennych, ffoniwch y ganolfan gyswllt neu defnyddiwch y llyfr ffôn ar staffnet. Gellir gweld cyfeiriadau e-bost hefyd yn llyfr cyfeiriadau e-bost Outlook

Dylai cyflogeion siarad â'r Arweinydd Diogelu neu eu Rheolwr Llinell ar yr un diwrnod ag y daw'r digwyddiad, y pryder neu'r honiad i'r amlwg.

Gellir penderfynu ar unwaith a fydd angen gofyn cyngor arbenigol ar yr achos, a dilyn y gweithdrefnau corfforaethol ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol.

B. Os credir bod y plentyn mewn perygl enbyd

Yn gyntaf, os bydd angen gwasanaeth brys - peidiwch ag oedi!
(Yr Heddlu, Ambiwlans, Tân ac Achub)
Ffoniwch 999, neu galwch
Gorsaf Heddlu Ganolog Abertawe
RHIF FFÔN: 01792 450699
Yna, hysbyswch eich rheolwr llinell, a/neu'r arweinydd diogelu.

Cysylltwch â **thîm GCCh y Gwasanaethau Cymdeithasol**
i gael cyngor arbenigol ar bryderon diogelwch plant ac amddiffyn plant.
RHIF FFÔN: 01792 636700
NEGES DESTUN: 07796275457
E-BOST: access.information@swansea.gov.uk

Y tu allan i oriau
Y Tîm Dyletswydd Brys
RHIF FFÔN: 01792 775501
E-BOST: edt.edt@swansea.gov.uk

Mae'r tîm hwn yn delio gydag argyfyngau na ellir eu gadael tan y diwrnod gwaith nesaf.

Atodiad 3b Diogelu Oedolion Agored i Niwed – Hysbysu

SYLWI, HYSBYSU!

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016, mae dyletswyddau statudol newydd i amddiffyn oedolyn agored i niwed 'sy'n wynebu risg'. Mae dyletswydd i roi gwybod am bryderon ynghylch oedolyn sy'n wynebu risg, ac mae dyletswydd ar awdurdod lleol i wneud ymholiadau os oes achos rhesymol i amau bod person yn ei ardal (boed hwnnw/honno'n preswylio yno fel arfer neu beidio) yn 'oedolyn sy'n wynebu risg'.

Pan fydd gan un o gyflogeion, aelodau etholedig neu bartneriaid Cyngor Abertawe bryder am oedolyn sy'n wynebu risg

Mae gan bob un o wasanaethau'r Cyngor Arweinydd Diogelu Dynodedig i helpu cyflogeion i ddelio â phryderon a materion diogelu plant.
Rhaid i'r staff ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu perthnasol ar gyfer eu gwasanaeth unigol a'u cyfarwyddiaeth hefyd

A. Os credir nad yw'r oedolyn agored i niwed mewn perygl enbyd

Cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell a/neu'r Arweinydd Diogelu, gan roi'r manylion sydd gennych yn barod.

Ceisiwch sicrhau bod eu rhifau gennych ar eich ffôn symudol yn y gwaith.
Os na fydd eu rhif ffôn gennych, ffoniwch y ganolfan gyswllt neu defnyddiwch y llyfr ffôn ar staffnet.
Gellir gweld cyfeiriadau e-bost hefyd yn llyfr cyfeiriadau e-bost Outlook.

Dylai cyflogeion siarad â'r Arweinydd Diogelu neu eu Rheolwr Llinell ar yr un diwrnod ag y daw'r digwyddiad, pryder neu honiad i'r golwg.

Gellir penderfynu ar unwaith a fydd angen gofyn cyngor arbenigol ar yr achos, a dilyn y gweithdrefnau corfforaethol ar gyfer gwneud atgyfeiriad diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol.

B. Os credir bod yr oedolyn agored i niwed mewn perygl enbyd

Yn gyntaf, os bydd angen gwasanaeth brys - peidiwch ag oedi!
(Yr Heddlu, Ambiwlans, Tân ac Achub)
Ffoniwch 999, neu galwch
Gorsaf Heddlu Ganolog Abertawe
RHIF FFÔN: 01792 450699
Yna, hysbyswch eich rheolwr llinell, a/neu'r arweinydd diogelu.

Cysylltwch â Phwynt Mynediad Cyffredin y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ffonio
01792 636519

E-BOST: IntakeOPDS@swansea.gov.uk

Y tu allan i oriau
Y Tîm Dyletswydd Brys
RHIF FFÔN: 01792 775501
E-BOST: edt.edt@swansea.gov.uk

Mae'r tîm hwn yn delio ag argyfyngau na ellir eu gadael tan y diwrnod gwaith nesaf.

Atodiad 4: Arweinwyr Dynodedig Cyngor Abertawe

Mae'r Arweinwyr Dynodedig a'r Rheolwyr Strategol ym mhob maes gwasanaeth fel a ganlyn:

Cyfarwyddiaeth/Adran	Arweinwyr Diogelu Dynodedig	Rheolwyr Diogelu Strategol
Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant)	Prif Swyddog Diogelu, ac Ansawdd Perfformiad * A elwir hefyd yn Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol	Prif Swyddog Diogelu, ac Ansawdd Perfformiad
Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion)	Rheolwr Diogelu	Prif Swyddog Arweiniol Gwaith Cymdeithasol Proffesiynol
Gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd	Rheolwr gwasanaethau landlordiaid	Rheolwr gwasanaethau landlordiaid
Gwasanaethau Diwylliannol	Swyddog Polisi a Pherfformiad	Swyddog Polisi a Pherfformiad
Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Chaffael	Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth (y Tîm Pobl)	Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth (y Tîm Pobl)
Tlodi ac Atal Tlodi	Rheolwr TAF*	Rheolwr Ymyrraeth Gynnar
Dysgu a Datblygu Corfforaethol	Rheolwr Dysgu a Datblygu Corfforaethol	Rheolwr Dysgu a Datblygu Corfforaethol
Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid	Pennaeth Cyfathrebu	Pennaeth Cyfathrebu
Gwybodaeth a Newid Busnes	Cynorthwy-ydd Rhaglenni Trawsnewid a TGCh Pennaeth Gwybodaeth a Newid Busnes	Pennaeth Gwybodaeth a Newid Busnes
Priffyrdd a Thrafnidiaeth	Rheolwr yr Uned Drafnidiaeth Integredig	Arweinydd Grŵp, Trafnidiaeth
Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol	Arweinydd y Grŵp Cynnal a Chadw	Arweinydd y Grŵp Cynnal a Chadw
Dysgu Gydol Oes	Rheolwr Gweithredol Arweinydd Tîm Gwasanaethau Dysgwyr	Rheolwr Gweithredol
Addysg	Swyddog Addysg, Diogelu ac Amddiffyn Plant Rheolwr y Gwasanaethau Ysgolion, Llywodraethwyr a Myfyrwyr	Rheolwr y Gwasanaethau Ysgolion, Llywodraethwyr a Myfyrwyr
Rheoli Gwastraff a Pharciau	Goruchwylydd y Tîm Lleihau Gwastraff, Ailgylchu Masnachol a Domestig	Goruchwylydd y Tîm Lleihau Gwastraff, Ailgylchu Masnachol a Domestig
Gwasanaethau Ariannol a Pherfformiad	Heb ei bennu eto	Rheolwr Perfformiad Busnes
Adfywio economaidd a chynllunio	Rheolwr Canol y Ddinas Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio	Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio
Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	Prif Swyddog Adnoddau Dynol	Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Pob Pennaeth Gwasanaeth

Bydd pob Pennaeth Gwasanaeth - trwy ei Dîm Rheoli - yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod yr holl ofynion statudol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion yn derbyn ystyriaeth briodol. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amlder yr hyfforddiant a ddarperir a chadw cofnodion hyfforddiant staff digonol.

Atodiad 5: Gwybodaeth ddefnyddiol

Hawliau Plant a Phobl Ifanc, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: •Hawliau plant a phobl ifanc - Abertawe

Diogelu Oedolion: Diogelu oedolion - Abertawe

Polisi Diogelu Gweithredol Corfforaethol: Polisi Diogelu Gweithredol Corfforaethol - Abertawe

E-ddysgu Cyngor Abertawe (*learning pool*), gan gynnwys modiwlau hyfforddi ynghylch Diogelu Oedolion (fersiwn 2) a Diogelu Plant (fersiwn 2), sy'n orfodol i'r holl staff: e-Ddysgu (*learning pool*) – Staffnet Abertawe

Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin

- **Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin: Bwrdd Diogelu Oedolion Bae'r Gorllewin**
- **Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin: Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin**

Adolygwyd a chyhoeddwyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Rhagarweiniad a Throsolwg
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Mae DEWIS CYMRU yn adnodd pwysig ar gyfer chwilio'r we am wybodaeth ynghylch llesiant yng Nghymru, gan gynnwys gwybodaeth am "Fod yn Ddiogel": Hafan - Dewis Cymru

Making Safeguarding Personal – temperature check (2016)
(Comisiynwyd gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Oedolion (ADASS, Lloegr, Gorffennaf 2016): https://www.adass.org.uk/media/5461/making-safeguarding-personal-temperature-check-2016.pdf

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru:
Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru - WASPI